**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Adroddiad i'r Cynulliad 2005 - 2006**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni eu blaenraglen gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod o 1 Ebrill 2005 i 30 Ebrill 2006

## 2. Aelodaeth

2.1 Dyma aelodaeth y pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| Jocelyn Davies (tan 1.1.06) | Brian Gibbons (Y Gweinidog) |
| John Griffiths | Helen Mary Jones (o 1.1.06 ymlaen) |
| Val Lloyd (tan 1.1.06) | David Melding (Y Cadeirydd tan 1.1.06) |
| Jonathan Morgan | Lynne Neagle |
| Jenny Randerson (o 7.6.05 ymlaen) | Karen Sinclair |
| Rhodri Glyn Thomas (Y Cadeirydd o 1.1.06 ymlaen) | Kirsty Williams (tan 7.6.05) |

## 3. Y Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod dan sylw, cyfarfu'r Pwyllgor 14 gwaith. Cafodd pob cyfarfod ei gynnal yn gyhoeddus.

## 4. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

4.1 Mae cylch gwaith y pwyllgor wedi'i seilio ar bortffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n ymwneud â phob agwedd ar ofal iechyd; diogelwch bwyd; y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol; plant a phobl ifanc, gan gynnwys gofal plant. Mae'r portffolio ynghlwm yn Atodiad 1.

4.2 Mae cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog ac maent ynghlwm yn Atodiad 2.

## 5. Nodau ac Amcanion

5.1 Amlinellodd y Pwyllgor ei amcanion yn ei Flaenraglen Waith Strategol ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2005 tan fis Rhagfyr 2006. Yr amcanion oedd craffu ar bolisïau Llywodraeth y Cynulliad a monitro'r ffordd y byddent yn cael eu gweithredu er mwyn gofalu bod pobl Cymru yn cael gwasanaethau i wella eu hiechyd a'u bod yn cael gofal iechyd a chymdeithasol pan oedd ei angen arnynt.

5.2 Wrth adolygu a datblygu polisïau, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwneud argymhellion a fyddai'n arwain at wasanaethau o ansawdd dda a fyddai'n gost effeithiol ac a fyddai'n cael eu rheoleiddio a'u harchwilio'r briodol.

## 6. Hynt y gwaith

6.1 Mae'r pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio ar graffu ar ddeddfwriaeth a'u hadolygiadau polisi. Y mae hefyd wedi derbyn adroddiadau'n rheolaidd gan y Gweinidog ar flaenoriaethau a nodwyd yn y Flaenraglen Waith Strategol.

**7. Datblygu ac Adolygu Polisïau (Rheol Sefydlog 9.7)**

**Adolygu'r Rhyng-gysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Ym mis Mawrth 2005, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar yr adolygiad o'r rhyng-gysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ystyriodd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i'r argymhellion ar 13 Gorffennaf. Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad holl argymhellion y Pwyllgor.

**Adolygiad y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl – Safon 2 : Cyfranogiad Defnyddwyr a Gofalwyr.**

7.2 Ym mis Mehefin 2004, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cynnal adolygiad polisi o Safon 2 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl – Grymuso Defnyddwyr a Gofalwyr, a fyddai hefyd yn cwmpasu gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Ar ôl ymgynghori'n ysgrifenedig a chlywed tystiolaeth lafar, ystyriodd y pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod haf 2005 gan gyhoeddi ei adroddiad ym mis Hydref. Trafododd y Pwyllgor ymateb ysgrifenedig y Gweinidog i'r adroddiad ar 8 Mawrth 2006. Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad 10 argymhelliad yn llawn a dau yn rhannol.

**Materion Eraill yn Ymwneud â Datblygu ac Adolygu Polisïau**

Ym mis Chwefror ystyriodd y Pwyllgor wasanaethau iechyd a gaiff eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill a sut y mae'r GIG yn ymateb i wahanol anghenion diwylliannol. Yn ystod yr un mis, trafododd ac ymatebodd hefyd i bapur gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar faeth ac iechyd.

**8. Craffu ar ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))**

8.1 Bydd y Pwyllgor yn cael rhestr o is-ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rheolaidd, a bydd yr Aelodau'n nodi unrhyw eitemau ar y rhestr hon y teimlant y dylai'r Pwyllgor graffu arnynt.

8.2 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried 21 eitem o is-ddeddfwriaeth, yn unol â'r protocol y cytunwyd arni.

8.3 Yn dilyn trafodaeth yn y Cynulliad ar 21 Mehefin yn ymwneud â rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, cyfeiriwyd pum Mesur at y Pwyllgor er mwyn iddo graffu arnynt.
i. Mesur Comisiynydd Pobl Hy^n (Cymru);
ii. Y Mesur Iechyd;
iii. Y Mesur Iechyd Meddwl;
iv. Y Mesur Plant a Mabwysiadu; a
v. Mesur Iawndal y GIG

Ac eithrio'r Mesur Iechyd Meddwl nad yw wedi'i gyhoeddi eto, craffwyd ar y cyfan drwy ddefnyddio protocol y Pwyllgor a gosodwyd adroddiadau gerbron y Cynulliad a'u hanfon at y Gweinidog.

**9. Monitro a Chraffu (Rheol Sefydlog 9.7 (ii) a (iii))**

9.1 Mae gwaith y Pwyllgor wedi ymwneud fwyfwy â chanolbwyntio ar fonitro perfformiad Llywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau. Mae adroddiad y Gweinidog wedi parhau i fod yn ffordd o wneud hynny'n rheolaidd, ond yn ogystal â hyn, ym mis Mehefin 2005, sefydlodd y Pwyllgor is-bwyllgor craffu o dan Reol Sefydlog 8.27. Mae'r is-bwyllgor yn cynnwys holl Aelodau'r prif bwyllgor ac eithrio'r Gweinidog. Dyma gylch gwaith yr is-bwyllgor:

- craffu ar waith y Gweinidog o ran perfformiad Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â rhoi'r polisïau a'r rhaglenni sy'n rhan o bortffolio'r Gweinidog ar waith;
- bydd Cadeirydd yr is-bwyllgor yn rhoi gwybod i'r Gweinidog am y pynciau y bydd yr is-bwyllgor yn craffu arnynt o leiaf ugain diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod;
- ni fydd yr is-bwyllgor yn pleidleisio nac yn cynnig unrhyw gynigion; a
- bydd yr is-bwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl bob cyfarfod.

Bydd y pwyllgor yn dirwyn i ben ar 15 Mehefin 2006.

9.2 Dyma'r pynciau y craffwyd arnynt:

| | |
|---|---|
| 16 Mehefin | i. Rhaglen buddsoddiad cyfalaf y GIG;<br>ii. Perfformiad Gwasanaeth Ambiwlans Cymru;<br>iii. Gwasanaethau i Blant sy'n Derbyn Gofal. |
| 17 Tachwedd | i. Gofal Lliniarol<br>ii. Y cynllun taliadau uniongyrchol sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaethau gofal i brynu eu gofal eu hunain |
| 5 Ebrill | i. Gweithredu fformwla Townsend i ddyrannu adnoddau i'r GIG;<br>ii. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi gofal am ddim yn y cartref i bobl anabl |

9.3 Ym mis Ebrill edrychodd y Pwyllgor ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed. Roedd y Pwyllgor yn ystyried bod nifer o faterion nad oeddynt wedi'u datrys eto ac felly ailedrychodd ar y mater ar 23 Mawrth, pan fu archwiliad cynhwysfawr o'r ystyriaethau.

9.4 Ym mis Mehefin, neilltuwyd y rhan fwyaf o un cyfarfod i drafod nyrsio. Pynciau eraill y craffodd y Pwyllgor arnynt oed amseroedd aros y GIG (mis Gorffennaf), heintiau a gafwyd yn yr ysbyty (mis Hydref); a materion iechyd dynion (mis Mawrth).

**10. Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8)**

Ymgynghorwyd ag enwebeion y Pwyllgor ynghylch 94 o benodiadau cyhoeddus.

**11. Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8)**

11.1 Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2006-07, a rhoddodd sylwadau arni. Mae llythyr y Cadeirydd, yn nodi'r blaenoriaethau a argymhellodd y Pwyllgor, ynghlwm yn Atodiad 2.

**12. Materion Trawsbynciol**

12.1 Cynrychiolodd David Melding y Pwyllgor ar adolygiad polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o anghenion addysgol arbennig tan fis Rhagfyr.

**13. Y Cynlluniau Statudol**

13.1 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried cynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer eu perthynas â'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy wrth iddo ymgymryd â'i waith. Y mae hefyd wedi rhoi sylw i ofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a'r ddyletswydd a roddwyd ar y Cynulliad o dan adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i ystyried yr egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

**14. Y Rhaglen yn y Dyfodol**

- 14.1 Mae blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer 2005-2006 wedi'u nodi yn y Flaenrgalen Waith Strategol. Y prif waith fydd cwblhau'r adolygiad o wasanaethau canser ar gyfer pobl Cymru, monitro ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i flaenoriaethau cyllidebol y Pwyllgor, fel y maent wedi'u nodi yn Atodiad 2.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd

**Annex 1**

**The Committee's Portfolio**

In accordance with s57(4) of the Government of Wales Act 1998, the Committee's portfolio follows that of the Assembly Minister:

- All aspects of the National Health Service in Wales, including general practice and primary care, ***other than*** (*i) oversight of the medical professions; (ii) policy on surrogacy, xenotransplantation, embryology and human genetics; and (iii) licensing of medicines. (These matters are not devolved to the National Assembly).*
- Charges for NHS services, including prescription, dental and ophthalmic and optical charges.
- The provision of services in Wales to the mentally ill.
- All aspects of public health in Wales, including food safety.
- The regulation of poisons.
- The activities of the Food Standards Agency in Wales.
- Genetically-modified food (***but not*** *the cultivation of genetically-modified crops - this is for the Minister for Environment, Planning and Countryside).*
- Oversight of the Audit Commission's activities so far as relating to the National Health Service in Wales.
- Policy on care in the community.
- Policy on the provision of social services for children, including the regulation of playgroups, activity centres and childminding.
- Oversight of the social services activities of local authorities in Wales including the issuing of statutory guidance.
- Oversight of
    - the Care Council for Wales;
    - the Wales Centre for Health;
    - the Healthcare Inspectorate Wales;
    - the Care Standards Inspectorate for Wales.
- Regulation of private care and nursing homes in Wales.
- Inspection of, and reporting on, the provision of social services by local authorities in Wales (via the Social Services Inspectorate for Wales).
- Adoption and fostering services in Wales (***but not*** *adoption of children by UK residents abroad).*
- Cross-cutting responsibility for health improvement, and older people and carers.

**Annex 2**

**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Eich cyf / Your Ref
Ein cyf / Our Ref HSS(2)-07-04

Brian Gibbons AM
Minister for Health and Social Services

3 June 2005

**BUDGET PROPOSALS 2006 - 2007**

Sue Essex's letter of 8 April to subject committee Chairs asked for Committees' responses to the budget proposals by 3 June.

The Committee considered the issues raised in your budget paper HSS(2)-07-05(p3) when it met on 25 May and identified the following priority areas for funding:

i. Children's Hospitals
ii. Townsend Implementation
iii. Ambulance Services in Wales (including Air Ambulance)
iv. Cancer Services
v. Services for Diabetes
vi. Epilepsy Services
vii. Implementation of the Mental Health National Service Framework

I look forward to seeing your detailed proposals in the Autumn.

I am copying this letter to Sue Essex and members of the Committee.

David Melding AM
Chair

**Annex 2**

**Duties of the Committee**

The Health and Social Services Committee is one of seven subject committees. The responsibilities of the subject committees are set out in the National Assembly's Standing Orders :

"9.7. Each subject committee shall

i. contribute to the development of the Assembly's policies within the fields for which the relevant Assembly Minister is accountable to the Assembly;
ii. keep under review the expenditure and administration connected with their implementation; and
iii. keep under review the discharge of public functions in those fields by public, voluntary and private bodies.

Each subject committee shall also, within the relevant fields,

i. advise on proposed legislation affecting Wales, including performing its functions under SO22 (now SO24);
ii. provide advice to the Assembly Cabinet on matters relating to allocation of the Assembly's budget in accordance with Standing Order 19 (now SO21);
iii. perform its functions under Standing Order 21(complaints) (now SO23);
iv. perform any functions assigned to it under the Code of Practice on Public Appointments Procedure made by the Assembly under Standing Order 20 (now SO22); and
v. consider matters referred to it by the Assembly within its fields."

Standing Order 9.9 requires the subject committee to maintain a rolling programme of work covering periods of at least 12 months.